



# Rhoi system newydd anghenion dysgu ychwanegol yn ei le rhwng Medi 2021 ac Awst 2024

Canllaw hawdd ei ddarllen i blant, rhieni a theuluoedd



Cafodd y canllaw hwn ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r canllaw ar gyfer rhieni a theuluoedd: **gweithredu system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) rhwng Medi 2021 ac Awst 2024.**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Os oes arnoch chi eisiau mwy o wybodaeth gallwch gysylltu â:

**Cyfeiriad:** Cangen Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr  
Is-adran Addysg, Cyfiawnder  
Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**E-bost:** [ALNImplementation@gov.wales](mailto:ALNImplementation@gov.wales)

**Facebook:** EducationWales

**Twitter:** [@WG\\_Education](https://twitter.com/WG_Education)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

<b>Ynglŷn â'r canllaw hwn.....</b>	<b>4</b>
Ynglŷn â system ADY.....	5
Beth sy'n newid .....	7
Sut y bydd plant yn symud i'r system AD.....	8
Sut y bydd ysgolion a chynghorau lleol yn symud plant i'r system ADY.....	11
Sut y gall plant a'u teuluoedd ofyn i gael symud i'r system ADY.....	14
Beth i'w wneud os nad ydych chi'n cytuno â rhywbeth.....	14

# Ynglŷn â'r canllaw hwn



Mae hwn yn ganllaw hawdd ei ddarllen i blant, rhieni a theuluoedd.



Mae'n ymwneud â'r ffordd y bydd deddf newydd yn gweithio yng Nghymru ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.



Mae'r ddeddf yn cael ei galw'n **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**. Mae hefyd yn cael ei adnabod fel **Deddf ADY**.



Bydd y ddeddf newydd yn newid y ffordd y mae plant ag anghenion addysg arbennig (AAA) yn cael eu cefnogi.



Bydd y system newydd yn cael ei galw'n system **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**.



Bydd y rhan fwyaf o blant yn symud o'r system AAA i'r system **ADY** dros dair blynedd.



Mae'r canllaw hwn yn egluro sut y bydd hyn yn digwydd.

## Ynglŷn â'r system ADY

**Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod:**



- Pob dysgwr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i wneud yn dda.



- Pobl yn gwrando ar blant a theuluoedd.



- Plant yn cael y gefnogaeth iawn.



- Y rhan fwyaf o blant yn cael defnyddio ysgolion sy'n agos atyn nhw.



- Plant yn gallu cael cefnogaeth cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol neu'r feithrinfa.



- Plant a theuluoedd yn deall beth yw'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig.



- Ffyrdd y gall plant a theuluoedd ddweud eu barn os nad ydyn nhw'n hapus.



- Plant yn cael cefnogaeth yn Gymraeg os oes arnyn nhw angen hynny.



# Beth sy'n newid

Dyma'r geiriau newydd fydd yn cael eu defnyddio:




Bydd anghenion addysg arbennig (AAA) yn mynd yn **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**.



Bydd cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (SENCos) yn mynd yn gydlynwyr **anghenion dysgu ychwanegol (ALNCos)**.



Bydd darpariaeth addysgol arbennig (SEP) yn mynd yn **ddarpariaeth dysgu ychwanegol (ALP)**.



Bydd cynlluniau fel cynlluniau addysg unigol (IEPs), datganiadau a chynlluniau dysgu a medrau (LSPs) yn cael eu newid yn **gynlluniau datblygu unigol (IDP)**.

## Sut y bydd plant yn symud i'r system ADY



Mae plant yn symud o'r system AAA i'r system **ADY** mewn grwpiau.

Yn Ionawr 2022, dechreuodd y grŵp cyntaf o blant symud i'r system ADY.

Roedd y grŵp hwn o blant yn mynd i feithrinfa, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion (PRU) yr awdurdod lleol. Ond nid oedd ganddyn nhw ddatganiad.

Bydd mwy o blant yn y grŵp hwn yn symud yn ystod y flwyddyn ysgol 2022 i 2023. Mae'r rhain yn blant sydd yn y Feithrinfa, y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

Bydd plant yn y grŵp hwn na symudodd o'r blaen yn symud yn y flwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r rhain yn blant sydd yn y Meithrin, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10.





O'r **1 Medi 2022** bydd grwpiau eraill o blant yn dechrau symud o'r system **AAA** i'r system **ADY**.

Y grwpiau hyn yw:



- Plant sydd ag AAA sydd ddim yn mynd i feithrinfa, ysgol nac **Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)** yr awdurdod lleol



- Plant sydd â datganiad AAA.

**Mae'r blwch isod yn dangos pryd y bydd plant sydd â datganiadau yn symud i'r system ADY.**

### **Blwyddyn ysgol 2022 i 2023**

Plant o dan oedran ysgol statudol, Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

### **Blwyddyn ysgol 2023 i 2024**

Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.



- Plant ble mae rhywbeth yn digwydd dan y system AAA. Gallai hyn fod oherwydd bod yr awdurdod lleol yn gwneud datganiad neu bod apêl i'r tribiwnlys.



Pan fydd plant yn symud i'r system **ADY**, bydd meithrinfa, ysgol, **Uned Cyfeirio Disgyblion** y plentyn, neu mewn rhai achosion yr awdurdod lleol, yn dweud sut a phryd y bydd hyn yn digwydd.



Os bydd y plentyn yn cael cefnogaeth dan y system AAA, bydd hyn yn parhau nes bydd y plentyn yn symud i'r system **ADY**.



Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

# Sut y bydd meithrinfeydd, ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac awdurdodau lleol yn symud plant i'r system ADY



Gall symud o'r system AAA i'r system ADY ddigwydd mewn tair gwahanol ffordd.

Gall ddigwydd trwy:

- i hysbysiad o **Gynllun Datblygu Unigol (CDU)** neu Dim hysbysiad CDU gael ei roi i blentyn neu ei rieni
- i hysbysiad **ADY** gael ei roi i blentyn a'i rieni
- neu symud yn awtomatig – mae hyn yn meddwl nad oes hysbyseb yn cael ei roi. Mae'r symud i'r system **ADY** yn digwydd oherwydd bod rhywbeth wedi newid.



## Hysbysiadau CDU a Dim CDU



Mae hysbysiad **CDU** yn meddwl ei fod wedi ei benderfynu bod gan blentyn **ADY** a bydd **CDU** yn cael ei wneud.



Mae hysbysiad Dim **CDU** yn meddwl ei fod wedi cael ei benderfynu nad oes gan blentyn **ADY**. Weithiau, bydd hysbysiad Dim **CDU** yn cael ei roi i blentyn oherwydd bod ei anghenion wedi newid, ac nad oes arnyn nhw bellach angen help ychwanegol i ddysgu.

## Symud awtomatig



Pan fydd plant yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system **ADY**, bydd meithrinfa, ysgol, **Uned Cyfeirio Disgyblion** neu awdurdod lleol y plentyn yn gadael i'r plant a'u teuluoedd wybod.

## Hysbysiad ADY



Weithiau gall awdurdod lleol roi **hysbysiad ADY**.



Mae **hysbysiad ADY** yn caniatáu i awdurdod lleol symud plentyn o'r system AAA i'r system ADY ar unrhyw adeg.



Mae **hysbysiad ADY** yn wahanol i hysbysiad CDU. Nid yw **hysbyseb ADY** yn cynnwys gwneud penderfyniad ynghylch **ADY** y plentyn.



Pan fydd hysbysiad **ADY** wedi cael ei roi, gall meithrinfa, ysgol, **Uned Cyfeirio Disgyblion** neu awdurdod lleol benderfynu a oes **ADY** ar y plentyn.



Buasai hyn yn digwydd petai'r feithrinfa, yr ysgol, yr **Uned Cyfeirio Disgyblion** neu'r awdurdod lleol yn meddwl bod **ADY** ar y plentyn.

## Sut y gall plant a'u teuluoedd ofyn am gael symud i'r system ADY



O'r 1 Medi 2022, mae gan y rhan fwyaf o blant hyd at Flwyddyn 11 sy'n cael cefnogaeth AAA yr hawl i ofyn am gael symud i'r system **ADY**.



Gall hyn ddigwydd yn gynt nag y mae'r feithrinfa, yr ysgol, yr **Uned Cyfeirio Disgyblion** neu'r awdurdod lleol wedi cynllunio i symud y plentyn.

## Beth i'w wneud os nad ydych chi'n cytuno â rhywbeth



Mae barn plant a theuluoedd yn bwysig iawn.



Os nad ydych chi'n hapus neu nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad sydd wedi'i wneud, gallwch ddweud hynny.



Gall siarad am eich pryderon helpu i'w datrys nhw neu unrhyw wahaniaeth barn.



Os yw eich plentyn yn mynd i feithrinfa, ysgol neu Uned Cyfeirio Disgyblion yr awdurdod lleol, byddai'n beth da siarad am eich pryderon â chydlynwyr **ADY**.



Os nad yw eich plentyn yn mynd i feithrinfa, ysgol neu **Uned Cyfeirio Disgyblion** awdurdod lleol, gallwch gysylltu â'r awdurdod lleol am help. Bydd ganddyn nhw bobl i gefnogi teuluoedd i drefnu rhywbeth y bydd pawb yn hapus ag ef.



Gallwch gysylltu â **Thribiwnlys Addysg Cymru** ynghylch rhai pethau nad ydych yn hapus â nhw.



**Gwefan:**

[specialeducationalneedstribunal.gov.wales](http://specialeducationalneedstribunal.gov.wales)





**Post:** Tribiwnlys Addysg Cymru  
Uned Tribiwnlys Cymru  
Blwch Postio 100  
Llandrindod  
LD1 9BW



**Ffôn:** 0300 025 9800



**E-bost:** [educationtribunal@gov.wales](mailto:educationtribunal@gov.wales)  
or [tribunal.Enquiries@gov.wales](mailto:tribunal.Enquiries@gov.wales)

Dyma rai mudiadau eraill a allai helpu:



- [SNAP Cymru](#)
- [National Deaf Children's Society](#)
- [National Autistic Society Cymru](#)
- [Royal National Institute of Blind People \(RNIB\) Cymru](#)
- [Comisiynydd Plant Cymru](#)

Gallwch gael mwy o wybodaeth gan eich awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru:

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth gyswllt eich awdurdod lleol yma: <https://llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-awdurdod-lleol>



Neu fynd i wefan Llywodraeth Cymru yma: <https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cwestiynau-cyffredin>